

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor
Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 08, 09 a 10 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 03 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a nodwyd gennym
 - Ansawdd Profiad y Claf
 - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol
 - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 08, 09 a 10 Awst 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y cleifion yn fodlon ar y gofal a ddarparwyd a'r ffordd yr oedd y staff yn rhyngweithio â nhw ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn feirniadol o amseroedd aros ac yn ystod y bore ar 10 Awst 2022, gwelsom fod rhai cleifion wedi bod yn aros i gael eu gweld gan feddyg am dros 16 awr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y nifer fawr o gleifion a oedd yn bresennol yn yr adran ac am mai dim ond dau feddyg oedd ar ddyletswydd yn ystod y nos. Fodd bynnag, gwnaeth yr amseroedd aros ostwng yn gyflym i 5 awr 40 munud yn ystod y bore wrth i fwy o feddygon ddod ar ddyletswydd.

Weithiau, roedd y cleifion yn aros am gyfnodau amser gormodol i gael eu brysbennu ac roedd hyn yn cyflwyno risg na fyddai cyflyrau difrifol yn cael eu dynodi'n gyflym.

Mae'r brif ardal aros yn yr Adran Achosion Brys yn fach ac ar adegau yn ystod yr arolygiad, roedd yn orlawn. Roedd y staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i reoli'r sefyllfa hon drwy symud y cleifion i ardaloedd eraill yn yr Adran Achosion brys fel y bo angen. Yn ogystal, roedd prinder ystafelloedd ymgynghori/trin, a oedd yn golygu bod ystafelloedd trin arbenigol, fel yr ystafell iechyd meddwl a thriniaethau llygaid, yn cael eu defnyddio i ddarparu ar gyfer cleifion gydag anghenion gofal mwy cyffredinol a'u trin. Gwnaethom drafod hyn â thîm rheoli'r Adran Achosion Brys a ddywedodd wrthym fod cynlluniau ar waith i gynyddu ôl troed yr adran, a fyddai'n arwain at ddarparu ystafelloedd ymgynghori/trin ychwanegol a chynnydd yng ngofod yr ardal aros. Rhagwelwyd y byddai'r newidiadau hyn yn gwella llif y cleifion drwy'r adran.

Dilynwyd y canllawiau cenedlaethol ar gyfer trin cyflwyniadau penodol, ond nid ym mhob achos. Roedd hyn yn golygu na dderbyniodd rhai cleifion y gofal gorau posibl ar gyfer y cyflyrau a oedd ganddynt.

Nid oedd y staff yn defnyddio'r system sgorio arwyddion rhybudd cynnar pediatrig (PEWS) bob amser.

Roedd yr amgylchedd yn yr Adran Achosion Brys yn lân ac yn daclus gyda'r staff glanhau i'w gweld drwy'r arolygiad. Fodd bynnag, gwelsom fonion sigarêts wedi'u gadael y tu allan i'r fynedfa i mewn i'r adran ac hefyd wrth brif fynedfa'r ysbyty. Mae hyn yn hyll ac nid yw'n rhoi argraff gyntaf dda i'r cleifion a'r ymwelwyr.

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i archwilio strategaethau i leihau'r amseroedd aros a llif y cleifion drwy'r ysbyty.
- Symud y cynlluniau datblygu yn eu blaen er mwyn cynyddu ôl troed yr adran achosion brys.
- Sicrhau bod pob mynedfa i'r ysbyty yn glir o fonion sigarêts
- Darparu gwybodaeth gyfredol am amseroedd aros
- Darparu gwybodaeth am sut i fynegi pryder
- Gwella'r amser y mae cleifion yn aros i gael eu brysbenno
- Sicrhau y caiff y canllawiau cenedlaethol ar gyfer amodau eu dilyn drwy'r amser
- Sicrhau bod pob plentyn sy'n cyrraedd â salwch aciwt yn cael sgôr Arwyddion Rhybudd Cynnar Pediatrig ac y gweithredir yn briodol ar hyn.
- Sicrhau y caiff arsylwadau eu cynnal yn ddigon aml er mwyn nodi unrhyw achos o waethygu mewn ffordd amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sylwadau cadarnhaol gan gleifion ar y cyfan
- Ymgysylltiad cadarnhaol â'r staff
- Cynnal a chadw cyffredinol
- Darparu bwyd a diod
- Gwirfoddolwyr y Groes Goch yn rhoi cymorth i gleifion gyda bwyd a diod.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y prif ardaloedd yn yr Adran Achosion Brys yn lân ac yn daclus a bod ardaloedd llif uchel a manau cyswllt, gan gynnwys toiledau a dolenni drysau, yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac i safon dda. Gwelsom hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn gadarn drwy'r adran.

Gwelsom fod risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n briodol yn yr adran.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r cleifion yn cael eu hasesu'n briodol wrth gyrraedd yr adran achosion brys a bod mesurau effeithiol ar waith ar y cyfan ar gyfer asesu,

monitro, arsylwi ac uwchgyfeirio cleifion sy'n anhwylyd neu'n gwaethygu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi dau achlysur pan ddylai cleifion a oedd yn cyrraedd gyda symptomau sepsis fod wedi cael eu huwchgyfeirio mewn ffordd fwy amserol. Fodd bynnag, derbyniodd y ddau glaf ofal priodol ac amserol ar ôl iddynt gael eu huwchgyfeirio.

Roedd cynorthwydd gofal iechyd yn yr ystafell aros a dyrannwyd un nyrs gymwysedig i'r ardal hon. Roedd arsylwadau ac archwiliadau sylfaenol ar gleifion yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd achlysuron pan nad oedd hyn digwydd yn ddigon aml i ddynodi achos o waethygu mewn ffordd amserol.

Roedd rhai cleifion yn aros amser hir i gael eu brysbennu ac i gael eu gweld gan feddygon ar adegau. Roedd hyn yn cyflwyno risg o waethygu pellach, gan na fyddai amodau critigol yn cael eu nodi'n amserol.

Ni chafodd sgoriau arwyddion rhybudd cynnar pediatrig eu cynnal bob amser yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, ac roedd hyn yn cyflwyno risg o beidio â dynodi achos o waethygu.

Mewn rhai achosion, gwelsom nad oedd y canllawiau cenedlaethol yn cael eu dilyn ar gyfer cyflwyniadau penodol. Er enghraifft, mewn achosion o orddos o barasetamol, gwelsom nad oedd y cleifion yn derbyn y profion gwaed yr oedd eu hangen arnynt bob amser i sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd hyn yn cyflwyno risg o niwed.

Mewn achosion eraill, cafodd archwiliadau allweddol eu gohirio, fel electrocardiogram (ECG), ar gyfer cleifion a oedd yn cyrraedd gyda phroblemau cardiaidd.

Nid oedd y cofnodion nyrsio'n cynnwys y manylion angenrheidiol bob amser. Fodd bynnag, roedd dull cyson o gwblhau'r risg niwed pwysu ac asesiadau o risg cwmpiaadau ac roeddent yn cael eu cofnodi'n briodol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Amseroedd brysbennu ac amseru ymyriadau pwysig fel ECG
- Amledd ac ansawdd arsylwadau a sgorio arwyddion rhybudd cynnar
- Uwchgyfeirio cleifion sy'n dangos symptomau sepsis
- Cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol
- Dogfennaeth nyrsio

- Protocol Cryno o Ddigwyddiad Anesboniadwy wedi'i Ddatrys
- Recriwtio Nyrs Bediatrig
- Sicrhau bod nyrs bediatrig hyfforddedig yn bresennol yn yr ardal bediatrig drwy'r amser
- Tymheredd oergell adweithydd nwy gwaed
- Cofnodi archwiliadau'r trolïau dadebru
- Sicrhau nad yw cleifion/perthnasau o flaen y sgrin gyfrifiadurol yn yr adran bediatrig
- Egwylliau staff
- Cwmpas y camerâu CCTV y tu allan i'r adran.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trosolwg ac arsylwi cleifion yn yr ystafell aros
- Cyfathrebu ac uwchgyfeirio trwy gyfarfodydd a sgrymiau diogelwch rheolaidd
- Atal a rheoli heintiau
- Ymdrechion ar y cyd i reoli'r llif a gwella amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys.
- Hyfforddiant staff
- Ardal orffwys i'r staff
- Rheoli meddyginiaethau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr adran yn cael ei rheoli a'i harwain yn dda.

Gwelsom staff cyfeillgar a phroffesiynol drwy'r adran a ddangosodd ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd dibyniaeth uchel ar staff asiantaeth adeg yr arolygiad. Y rheswm pennaf am hyn oedd salwch staff a staff yn gorfod ynysu yn dilyn profion COVID-19 positif. Fodd bynnag, gwelsom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau gwasanaethau'r un aelodau o staff asiantaeth lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau parhad gofal a staff a oedd yn gyfarwydd â'r adran.

Cawsom wybod fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio a meddygol. Fodd bynnag, roedd recriwtio yn parhau i fod yn heriol o fewn y cyd-destun prinder nyrsys/meddygon cenedlaethol.

Roedd uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys i'w gweld yn yr adran ac roeddent yn aml yn gweithio mewn rôl glinigol i gefnogi'r staff.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau ag ymdrechion i recriwtio staff

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiau a gweithdrefnau
- Archwilio ac adrodd
- Adolygiadau 'Gwneud Pethau'n Ddiogel'
- Ffocws yn ystod cyfarfodydd diogelwch ar yr hyn y mae'r Adran Achosion Brys ei angen i wneud pethau'n ddiogel.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron papur a holiaduron ar-lein er mwyn casglu barn y cleifion ar yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar y ffordd roedd y staff yn rhyngweithio â'r cleifion a'r gofal a ddarperir. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn feirniadol am amseroedd aros. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Ni roddwyd gwybod i ni am yr amseroedd aros. Dywedwyd wrthyf y byddwn yn cael fy nhynnu oddi ar y rhestr pe byddwn yn mynd gartref."

"Cefais gyngor gan nyrs i gwyno gan fod fy lle wedi'i gollu o'r ciw ac yna bu'n rhaid imi aros 3 awr arall."

"Uniongyrchol iawn - mewn ffordd deg."

"Yn sylweddoli eu bod yn blaenoriaethu cleifion."

"Nid oes dealltwriaeth o'r anawsterau sydd gan y staff wrth weithio."

Oherwydd yr amser aros, mwy o staff."

"Mwy o feddygon a chyfathrebu gwell rhwng y staff. Diffyg gwybodaeth, ni wnaeth neb ddweud wrthym y byddai'n rhaid aros mor hir - 17 awr."

"Cael mwy o staff i leihau'r amser aros."

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwellu Iechyd

Roedd gwybodaeth am sepsis yn cael ei harddangos yn ardal y dderbynfa ac yn ardaloedd y coridorau.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Er bod rhai o'r cleifion yn aros yn hir i gael eu gweld gan feddyg, gwelsom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w cadw'n gyfforddus ac i gynnal eu hurddas. Yn ogystal, cynigiwyd bwyd a diod i'r cleifion yn rheolaidd yn ystod eu harhosiad yn yr adran.

Roedd preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio ciwbiclau lle gallai archwiliadau, triniaethau a gofal personol i'r cleifion gael eu cyflawni heb i bobl eraill eu gweld.

Gwelsom fod ardaloedd o'r adran wedi'u haddurno'n dda ac roeddent yn briodol ar gyfer eu defnydd bwriadedig. Dywedwyd wrthym fod gwaith ar y gweill i ailaddurno rhai o'r ciwbiclau yn yr adran er mwyn eu gwneud yn fwy ystyriol o ddementia.

Roedd y cleifion a'r gofalmwyr y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a dderbyniwyd ar y cyfan. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwelwyd bod y staff yn gynnwl wrth siarad â'r cleifion a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod eu preifatrwydd yn cael ei gynnal. Roedd staff y dderbynfa'n ystyriol o gyfrinachedd wrth siarad â'r cleifion, gan wneud yn siŵr nad oedd neb arall yn yr ardal aros yn eu clywed nhw.

Gwelwyd bod y cloeon ar doiledau'r cleifion i gyd yn gweithio'n iawn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a gyda'i gilydd mewn ffordd barchus drwy gydol yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai o'r aelodau o staff sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r cleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd eraill.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod y staff yn cymryd amser i esbonio'r prosesau gofal a thrin.

Gwybodaeth i gleifion

Cafodd amseroedd aros eu cyhoeddi ar system sain. Fodd bynnag, gwelsom fod y cyhoeddiadau hyn yn anghyson. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn trefnu i'r amseroedd aros hyn gael eu dangos ar y monitor yn yr ardal aros. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amseroedd aros yn cael eu cyfleu i'r cleifion.**

Roedd posteri atal a rheoli heintiau COVID-19 yn amlwg drwy'r adran yn rhoi cyngor i'r cleifion a'r ymwelwyr ar gadw pellter cymdeithasol, gwisgo masgiau wyneb a hylendid dwylo.

Gwelsom bosteri yn yr ardal mân anafiadau yn esbonio beth dylai'r cleifion ei ddisgwyl o ran y llwybr gofal yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, ni welsom bosteri tebyg mewn unrhyw un o ardaloedd eraill yr adran.

Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd ardal aros yr Adran Achosion Brys yn orlawn drwy gydol yr arolygiad. Er gwaethaf hyn, gwelwyd bod yr ardal aros ac ardaloedd eraill yr Adran Achosion Brys yn gymharol dawel.

Derbyniodd staff y dderbynfa ganllawiau a rhestr o gyflwyniadau a symptomau perygl mawr a oedd yn eu galluogi i nodi cleifion risg uchel ac i rybuddio'r nyrsys hyfforddedig er mwyn i'r cleifion hynny allu cael eu gweld fel mater o flaenoriaeth. Fodd bynnag, gwelsom oedi o ddwy awr o'r amser yr oedd y claf yn cyrraedd y dderbynfa gyda symptomau sepsis i weld meddyg. Ar ôl uwchgyfeirio'r claf, derbyniodd asesiad prydlon a thriniaeth briodol gan feddyg. Yn yr achos hwnnw, nid oedd gan y claf sepsis yn y diwedd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu brysennu a'u huwchgyfeirio mewn modd amserol.**

Gwelsom fod pawb yn ymdrechu i frysennu cleifion a oedd ar ambiwlansys a chawsant eu symud i'r adran cyn gynted â phosibl. Cafodd nyrs frysennu a gweithiwr cymorth gofal iechyd eu dirprwyo i'r dasg hon ac roedd y broses i'w gweld yn gweithio'n effeithlon yn ystod yr arolygiad, gydag uchafswm o bedwar ambiwlans i'w gweld yn aros y tu allan i'r Adran Achosion Brys ar unrhyw un adeg, gydag amseroedd trosglwyddo o 2 awr 45 munud ar y mwyaf yn y bore ar 10/08/22.

Gwelsom hyd at 16 awr o oedi i feddyg weld cleifion yn y bore ar 10/08/22. Dywedwyd bod hyn oherwydd y nifer fawr o bobl a oedd yn bresennol yn yr adran ac am mai dim ond dau feddyg oedd ar gael i drin cleifion dros nos. Fodd bynnag, erbyn amser cinio ar yr un diwrnod, roedd yr amseroedd aros am feddyg wedi gostwng i bum awr a 40 munud. Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan feddygon mewn modd amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal aml-ddisgyblaethol ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau'r cleifion o ran sut roeddent am gael gofal.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, gwnaethom gadarnhau fod y cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu hanghenion gofal.

Gwelsom fod y cynllun Pili Pala wedi'i ymgorffori yn y broses asesu. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion gyda dementia yn cael eu nodi ac yn cael y cymorth ychwanegol yr oedd ei angen arnynt.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn ymdrechu i roi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Roedd asesiadau galluedd meddyliol a threfniadau diogelu rhyddid priodol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Gwranddo a dysgu o adborth

Cafodd cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i ddarparu adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarperir, trwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau ffurfiol ar waith i reoli cwynion ac roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei hysbysebu'n amlwg yn yr adran gyda dim ond un poster yn cael ei arddangos. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am sut i gwyno yn cael ei harddangos yn yr adran.**

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym y byddent yn cwyno i'r bwrdd iechyd neu i Lywodraeth Cymru os oeddent yn anhapus â'r gofal a ddarperir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n briodol yn yr adran. Gwnaeth hyn sicrhau bod y cleifion, aelodau'r cyhoedd a'r staff yn cael eu diogelu rhag y risg o niwed neu anaf.

Roedd asesiad risg o glymau ar waith.

Roedd staff diogelwch wedi'u lleoli yn yr adran. Yn ystod trafodaethau â'r staff diogelwch, dywedwyd wrthym fod cwmpas y camerâu CCTV y tu allan i'r adran yn wael a oedd yn golygu nad oedd y staff yn gallu olrhain symudiadau cleifion agored i niwed pan oeddent yn gadael yr adran heb dderbyn triniaeth. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system CCTV yn cael ei hymestyn er mwyn cwmpasu'r ardal y tu allan i'r Adran Achosion Brys.**

Roedd cynorthwydd gofal iechyd, yn yr ardal aros, yn gyfrifol am gynnal gwiriadau tymheredd ar gleifion ac ymwelwyr cyn iddynt gael eu gadael i mewn i'r Adran Achosion Brys. Roedd y cynorthwydd gofal iechyd hefyd yn gyfrifol am gynnal a chofnodi gwiriadau lles bob dwy awr ar bob claf yn yr ardal aros, gan gynnig bwyd a diod fel y bo angen. Cafodd y gwiriadau lles hyn eu cofnodi.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod asesiadau risg niwed pwysu yn cael eu cwblhau a'u cofnodi fel y bo'n ofynnol.

Roedd cyfarpar lleddfu pwysau, fel matresi arbenigol, yn cael eu defnyddio yn yr adran.

Atal cwympiadau

Nodwyd gennym fod asesiadau risg o gwympiadau yn cael eu cynnal a'u cofnodi fel y bo angen.

Roedd y tîm adnoddau cymunedol hefyd i'w gweld yn yr adran yn helpu gydag asesiadau symudedd i baratoi ar gyfer rhyddhau cleifion.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod pob ardal yn yr Adran Achosion Brys yn lân ac yn daclus. Roedd y staff glanhau i'w gweld yn yr adran yn ystod yr arolygiad ac roeddent yn dangos balchder yn eu gwaith. Gwelsom fod ardaloedd llif uchel a manau cyswllt, gan gynnwys toiledau a dolenni drysau, yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac i safon dda.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu a'u diwallu yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys cleifion a oedd yn cael eu cadw ar ambiwlansys y tu allan i'r Adran Achosion Brys. Gwelwyd bod y cleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta ac yfed yn cael cymorth gan y staff a gwirfoddolwyr y Groes Goch.

Roedd peiriant dŵr a pheiriannau gwerthu hefyd ar gael yn yr ardal aros.

Roedd lefelau yfed hylif y cleifion yn cael eu monitro a'u cofnodi fel y bo angen.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y broses rheoli meddyginiaethau yn ddiogel a chadarn ar y cyfan gyda siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir gan y staff nyrsio. Fodd bynnag, gwelsom fod ocsigen yn cael ei roi i rai cleifion heb iddo gael ei ragnodi. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ond ei roi pan gaiff ei ragnodi.

Gwelsom fod yr angen am feddyginiaethau lleddfuo poen yn cael ei asesu a'i fonitro'n briodol.

Roedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd tymheredd yr oergell adweithydd nwy gwaed, sydd wedi'i leoli yn yr ardal ddadebru, yn cael ei gofnodi'n rheolaidd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymereddau'r oergell adweithydd nwy gwaed yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd.**

Roedd fferylllydd dynodedig yn yr adran a chymorth fferyllol ar gael y tu allan i oriau os oedd angen. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y mwyafrif o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth foddhaol am y materion yn ymwneud â diogelu, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a galluedd meddyliol.

Rheoli gwaed

Roedd protocolau clir ar waith i reoli trallwysïadau gwaed.

Roedd staff a oedd yn gyfrifol am drallwysïadau gwaed wedi derbyn hyfforddiant penodol ac asesiadau cymhwysedd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwirio'r troliâu dadebru at argyfwng yn yr adran. Defnyddiwyd system electronig i staff gadarnhau a chofnodi gwiriadau rheolaidd. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oedd yr ap a oedd yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau'n gweithio bob amser. Gwnaethom nodi fod system wrth gefn ar waith, ond gwelsom fod nifer bach o fylchau yn y cofnodion hyn. Dywedwyd wrthym fod metron yr Adran Achosion Brys yn chwilio am ffyrdd o reoli gwiriadau'r troli dadebru yn well ac roedd wrthi'n treialu'r gwaith o gynnal

gwiriadau ar wahanol amseroedd yn ystod y dydd a'r nos i weld pa amser yr oedd llai o alw ar y staff a phryd yr oedd y staff yn fwy tebygol o gyflawni'r gwiriadau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwiriadau'r troli dadebru eu cofnodi'n gywir.**

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth o nyrsio ac arweinyddiaeth feddygol da yn yr Adran Achosion Brys.

Gwnaethom siarad â nifer o aelodau o staff clinigol ym mhob rhan o'r adran a gwnaeth pob un ddangos dymuniad i ddarparu safon dda o ofal i'r cleifion.

Nid oedd y cofnodion nyrsio'n cynnwys y manylion angenrheidiol bob amser. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion nyrsio yn fanwl ac yn gywir.**

Yn ystod yr arolygiad ar y safle, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer asesu, monitro, arsylwi ac uwchgyfeirio cleifion sy'n anhwylyd neu'n gwaethygu yn gadarn ac yn effeithiol ar y cyfan, a gefnogir gan y defnydd o brosesau ac adnoddau asesu a gydnabyddir yn genedlaethol. Fodd bynnag, gwnaeth yr adolygiad bwrdd gwaith o nodiadau'r cleifion ddatgelu nad oedd arsylwadau'n cael eu gwneud yn ddigon aml bob amser i nodi unrhyw achos o waethygu mewn ffordd amserol ac nid oedd y canllawiau cenedlaethol ar gyfer rheoli rhai amodau'n cael eu dilyn bob amser. Yn ogystal, nid oedd sgoriau Arwyddion Rhybudd Cynnar Pediatrig (PEWS) yn cael eu cofnodi mewn perthynas â phob plentyn a oedd yn cyrraedd gyda salwch aciwt. Yn ogystal, nid oedd protocol Cryno o Ddigwyddiad Anesboniadwy wedi'i Ddatrys ar waith. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff arsylwadau o'r cleifion eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd ac y caiff y canllawiau cenedlaethol eu dilyn bob amser.**

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau y caiff sgoriau PEWS eu cofnodi mewn perthynas â phob plentyn sy'n cyrraedd gyda salwch aciwt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi protocol Cryno o Ddigwyddiad Anesboniadwy wedi'i Ddatrys ar waith.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae nifer o gynlluniau ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â materion ac ymddengys bod ganddynt y cymorth ar y lefel ofynnol yn y bwrdd iechyd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod yr Adran Achosion Brys wedi rhoi system rheoli cleifion a chofnodion electronig ar waith. Rhoddodd rhai aelodau o'r staff sylwadau cadarnhaol ar y system ac rydym yn cydnabod y manteision y gall system electronig esgor arnynt. Fodd bynnag, rhoddodd aelodau eraill o'r staff wybod am broblemau gyda'r system a gwnaethant esbonio eu bod yn aml yn gorfod cadw cofnodion papur ac yna yn eu sganio i mewn i'r system. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw roi sicrwydd i ni fod y broses sganio'n gymharol gyflym ac yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cofnodion papur gael eu cwblhau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system rheoli cofnodion electronig yn gweithio'n effeithiol.**

Caiff y wybodaeth i gleifion ei chadw ar system wedi'i diogelu â chyfrinair gyda mynediad lefel a reolir. Fodd bynnag, gwelsom un achlysur lle roedd monitor cyfrifiadur yn yr ardal bediatrig, a oedd yn dangos gwybodaeth am y cleifion, wedi'i adael ymlaen ac roedd modd i'r cleifion eraill ac aelodau'r cyhoedd ei weld. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth am y cleifion ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac nad oes modd i aelodau'r cyhoedd weld sgriniau cyfrifiaduron.**

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar gyfanswm o chwech o nodiadau gofal i gleifion yn fanwl tra roeddem ar y safle a 15 arall oddi ar y safle. Fel y soniwyd yn flaenorol, gwelsom fod y gwaith cadw cofnodion yn dda ar y cyfan yn y rhan fwyaf o'r nodiadau achos cleifion a gafodd eu holrhain gyda rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r adran.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff. Gwelsom fod 90% o'r staff wedi cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu ffurfiol wedi'u dogfennu.

Y Gweithlu

Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd ym mhob rhan o'r adran ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cyfraddau recriwtio a chadw staff yn heriol a bod y gwasanaeth yn ddibynnol iawn ar staff asiantaeth a staff banc i ddiwallu'r lefel

staffio. Dywedwyd wrthym hefyd y caiff y sefyllfa ei gwaethygu gan nifer y staff sydd ar absenoldeb salwch. Roedd ymdrechion ar waith i sicrhau gwasanaethau'r un aelodau o staff asiantaeth lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau parhad gofal ac aelodau o staff a oedd yn gyfarwydd â'r amgylchedd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i recriwtio staff parhaol.**

Gwelsom fod ardaloedd gorffwys i'r staff ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym mai anaml yr oeddent yn gallu cymryd egwyl i ffwrdd o'r ardal glinigol oherwydd y pwysau gwaith. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cymryd egwyliau rheolaidd o'r ardal glinigol.**

Gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol gan staff yn dda ar 85%.

Yn ogystal â chynnal trafodaethau wyneb-yn-wyneb â'r staff, cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein er mwyn casglu barn y staff ar yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion.

Roedd ymatebion y staff yn gymysg, gyda rhyw hanner y staff yn dweud wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedodd rhyw dri chwarter o'r ymatebwyr wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio ynddo.

Roedd y meysydd gyda'r rhan fwyaf o ymatebion cadarnhaol yn cynnwys rhan y cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal, effeithiolrwydd atal a rheoli heintiau, ac anogaeth i roi gwybod am wallau, achosion neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Ymhlith y meysydd a oedd yn denu'r nifer lleiaf o ymatebion cadarnhaol a'r nifer mwyaf o sylwadau negyddol roedd priodoldeb amgylchedd a chyfleusterau'r Adran Achosion Brys, staffio, cysylltiadau gwael rhwng rheolwyr a staff a diffyg canfyddedig o ran cymryd rhan mewn rheoli newid neu wella gwasanaethau. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Does dim digon o le i roi gofal diogel i gleifion.”

“Gofod cyfyngedig a nifer gyfyngedig o staff.”

“Adran brysur gyda diffyg lle.”

“Mae'n orlawn drwy'r amser. Mae gormod o gleifion mewn ciwbiclau yn aros am welyau ar y wardiau, felly ychydig le ciwbicl sydd, os o gwbl, i weld y cleifion sy'n dod i mewn. Rydym yn jyglu'r cleifion drwy'r amser ac yn gofyn am welyau i gleifion mewnol yn gyson. Weithiau, ychydig iawn o symudiadau i wardiau fydd yn digwydd yn ystod shifft.”

“Llawer o staff newydd gymhwyso. Gadawodd nifer enfawr o'r staff, gan adael problem fawr o ran y cymysgedd sgiliau.”

Mae'r tîm ... yn Adran Achosion Brys Wrecsam yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal gorau posibl. Oherwydd salwch staff a dechreuwyr newydd, nid yw hyn yn bosibl bob amser, ond maen nhw'n gwneud eu gorau glas bob amser, a hynny dan amodau anodd iawn.”

“Mwy o feddygon i allu gweld y cleifion yn gynt.”

Gwnaeth bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr arolwg ddweud wrthym eu bod yn gwybod sut i uwchgyfeirio pan fydd yr adran yn agos at gapasiti a'u bod yn gwybod i bwy i roi gwybod am bryderon ynghylch arferion anniogel. Fodd bynnag, dywedodd chwarter yr ymatebwyr wrthym nad oeddent yn gwybod a fyddent yn teimlo'n ddiogel yn mynegi pryderon. Yn ogystal, dywedodd rhyw draean o'r ymatebwyr wrthym nad oeddent yn hyderus y byddai eu pryderon yn cael eu trafod. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Fel y mae uwch aelodau o staff/rheolwyr yn ymwybodol, mae'r galw gan y cyhoedd yn cynyddu ac rwy'n teimlo bod disgwyl i staff rheng flaen gael y gwaethaf o 'ddicter' y bobl sy'n dod i'r Adran Achosion Brys. Byddai o gymorth mawr petai rhagor o uwch-reolwyr yn gallu bod yn bresennol yn yr ystafell aros er mwyn esbonio'r amser aros presennol am feddygon, gwelyau ac ati, neu o leiaf ddarparu cymorth i staff y rheng flaen yn yr ystafell aros.”

“Nid yw rheolwyr yr ysbyty wir yn deall yr heriau y mae ein Hadran Achosion Brys yn eu hwynebu.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wreccsam

Dyddiad yr arolygiad: 08-10 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 08-10 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amseroedd aros yn cael eu cyfleu i'r cleifion.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Dylai'r amseroedd aros i weld clinigydd yn yr Adran Achosion Brys fod ar gael yn amlwg i'r cleifion eu gweld yn yr ystafell aros, yn ogystal â diweddariadau sain. Mae diweddariad i'r sgriniau electronig ar y gweill i gefnogi hyn. Bydd y ddau fath o gyfleu'r amseroedd aros yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y dydd ac yn cael eu diweddarau fel y bo'n angenrheidiol. Caiff hyn ei fonitro gan Gydlynnydd y Gwasanaethau Clinigol.	Y Prif Arweinydd ar gyfer Gofal mewn Argyfwng	31 Mawrth 2023 i ddiweddarau'r System TG
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod	Safon 5.1	Cynnydd i'r gweithlu uwch sy'n cynnwys staff Brysbennu	Pennaeth Nyrsio ar gyfer Gofal mewn Argyfwng	Cwblhawyd Tachwedd 2022

<p>cleifion yn cael eu brysbennu a'u huwchgyfeirio mewn modd amserol.</p>	<p>Mynediad Amserol</p>	<p>hyfforddedig, yn dilyn buddsoddiad i'r adolygiad o'r gweithlu ym mhob rhan o PBC, gyda'r mwyafrif o'r penodiadau gwag bellach wedi'u llenwi.</p> <p>Bydd hyfforddiant brysbennu parhaus yn parhau i gynyddu set sgiliau aelodau iau y tîm ar ôl rhyw 12 mis o ddechrau yn yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Cynnydd mewn brysbennu, hyfforddi'r hyfforddwyr i wella'r cymorth sydd ar gael i'r staff.</p> <p>Bydd adolygiad o'r dyraniad staffio'n sicrhau bod 2 aelod o staff brysbennu hyfforddedig ar gael i weithio yn y maes.</p> <p>Mae model ffrydio ar ddrws ffrynt yr Adran Achosion Brys wedi dechrau ac ar waith pan fydd y staffio'n cefnogi hyn. Cynhaliwyd gweithdy ar 6 Medi 2022 i gytuno ar gamau gweithredu gyda'r holl arweinwyr arbenigedd a fydd yn cefnogi ffrydio o'r Adran Achosion Brys.</p>		<p>Mae hon yn broses barhaus ddisgwyliedig i ddechreuwyr newydd yn yr Adran Achosion Brys ac adolygu pan fyddant yn gymwys i ddechrau hyfforddiant.</p> <p>Cwblhawyd Tachwedd 2022</p> <p>Rhoi'r Weithdrefn Weithredu Safonol ffrydio ar waith yn</p>
---------------------------------------------------------------------------	-------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

		<p>Datblygwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol ffrydio, a fydd yn cael ei chadarnhau yn y Grŵp Diogelwch ac Ansawdd i Gleifion yr Adran Achosion Brys ar 26.01.23. Bydd y Weithdrefn Weithredu Safonol yn cefnogi rhaglen hyfforddiant i'r staff a fydd yn cael eu dyrannu i'r swyddogaeth hon pan fyddant ar ddyletswydd. Yn ei dro, bydd hyn yn cefnogi'r amseroedd y bydd cleifion yn aros i gael eu brysbennu a'r gallu i uwchgyfeirio cleifion sy'n destun gofid.</p>		<p>llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan feddygon mewn modd amserol.</p>		<p>Gwnaed gwelliannau yn yr amseroedd aros i weld Clinigydd yr Adran Achosion Brys ac mae'r ymdrechion yn parhau i sicrhau y caiff hyn ei gynnal a'i fod yn gyson. Cefnogir hyn drwy gyflenwi'r rota clinigol yn well ac ehangu ôl troed yr Adran Achosion Brys sy'n darparu mwy o ofod i weld cleifion, yn enwedig cleifion mân anafiadau. Dyrennir clinigwyr i bob ardal o'r Adran Achosion Brys i sicrhau bod digon o staff ar gael i weld y cleifion.</p>	<p>Y Dirprwy Gyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>Mae hon yn broses barhaus ac yn parhau i gael ei hadolygu a'i monitro i wneud gwelliannau pellach. Bydd hon yn cael ei hadolygu ymhellach pan fydd y gwaith Ffrydio wedi'i rhoi ar waith a'i ymgorffori.</p> <p>Adolygiad: Ebrill 2023</p>

		<p>Trwy roi'r Ganolfan Triniaethau Brys ar waith, sydd hefyd yn cwmpasu'r Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys, bydd gwelliant parhaus yn yr amser y mae'r cleifion yn aros i weld clinigydd. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach trwy roi model ffrydio ar waith wrth ddrws ffrynt yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad o rotas Meddygol i sicrhau y caiff staff uwch eu cyflenwi'n well y tu allan i oriau. Mae'r patrymau gwaith a ddiweddarwyd i gefnogi cydnerthedd yn y rota y tu allan i oriau yn cael eu rhoi ar waith o fis Chwefror 2023. Cefnogir hyn gan y Gweithlu Meddygol ychwanegol a fydd yn dechrau yn yr Adran Achosion Brys rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, ar lefel Meddyg Ymgynghorol a Gradd Ganolig.</p> <p>Mae datblygu'r model Eiddilwch hefyd wedi gweld gwelliant o ran rheoli cleifion priodol, gyda Meddyg Ymgynghorol a Therapydd Ymgynghorol Eiddilwch yn gweithio yn yr</p>		<p>Chwefror 2023</p> <p>Rhoddyd ar waith ym mis Hydref 2022</p>
--	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------

		Adran Achosion Brys yn ddyddiol er mwyn cefnogi'r gwaith o osgoi derbyn cleifion i'r adran lle y bo'n bosibl. Caiff data eu hadolygu'n wythnosol trwy'r dangosfwrdd Eiddilwch.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am sut i gwyno yn cael ei harddangos yn yr adran.	Safon 6.3 Gwranddo ar Adborth a dysgu ohono	<p>Mae posteri i'w gweld yn y prif ystafelloedd aros. Mae'r Adran Achosion Brys wedi ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyswllt a Chynghori Cleifion sydd bellach yn mynd i'r Adran Achosion Brys bob 2 wythnos, a hynny yn dilyn cytundeb, er mwyn cymryd adborth uniongyrchol gan gleifion.</p> <p>Mae'r staff hefyd yn dosbarthu ffurflenni adborth i gleifion.</p> <p>Bydd arwyddion yn cael eu hadolygu ymhellach a bydd arwyddion ychwanegol yn cael eu harddangos lle y bo'n ofynnol.</p>	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	<p>Mae archwiliadau dangosyddion perfformiad allweddol ar gael os oes angen ac maen nhw wedi'u cyflwyno ar wahân i'r ddogfen hon</p> <p>Diwedd Ionawr 2023</p>
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system CCTV yn cael ei hymestyn er mwyn cwmpasu'r ardal y tu allan i'r Adran Achosion Brys.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Cafodd y cwmpas camerâu CCTV ei adolygu gan Reolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng a gallwn gadarnhau bod y cwmpas camerâu CCTV bellach yn	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng	Cwblhawyd Rhagfyr 2022

		cynnwys pob ardal y tu allan i'r Adran Achosion Brys. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro trwy broses adolygu lechyd a Diogelwch yr Adran Achosion Brys.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ond ei roi pan gaiff ei ragnodi.	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Bydd yr Uwch-ymarferydd Clinigol yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o ganran y cleifion y mae ocsigen wedi'i ragnodi iddynt.</p> <p>Bydd y prosiect gwella ansawdd yn cael ei gyflawni i fesur effaith yr hyfforddiant gyda staff a bydd yn cael cymorth fferylllydd yr adran.</p> <p>Cyfathrebu â'r holl staff clinigol i dynnu sylw at bwysigrwydd rhagnodi ocsigen. Dylid ei gynnwys hefyd fel rhan o'r trosglwyddiad yn y bore.</p>	Nyrs Ymgynghorol yr Adran Achosion Brys	<p>Cwblhawyd yr archwiliad cyntaf Rhagfyr 2022.</p> <p>Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023. Dull gweithredu graddol fydd hwn a bydd angen hyfforddiant ar ei gyfer a bydd yn cael ei asesu o ran effaith er mwyn rhannu dysgu.</p> <p>Cwblhawyd Ionawr 2023</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymereddau'r oergell		Gwaith monitro cydymffurfiaeth dyddiol sy'n cael ei goladu a'i gynnwys yn yr adroddiad misol ar	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	Medi 2022

adweithydd nwy gwaed yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd.		ddangosyddion perfformiad allweddol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwiriadau'r troli dadebru eu cofnodi'n gywir.	Safon 2.9 Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig	Gwaith monitro cydymffurfiaeth dyddiol sy'n cael ei goladu a'i gynnwys yn yr adroddiad misol ar ddangosyddion perfformiad allweddol.	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	Rhagfyr 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi protocol Cryno o Ddigwyddiad Anesboniadwy wedi'i Ddatrys ar waith.	Safon 3.1 Gofal Diogel ac Effeithiol	Mae hwn yn cael ei ddatblygu gan yr Adran Bediatreg ac mae yn y cam ymgynghori ar hyn o bryd.	Cyfarwyddwr Clinigol Pediatreg	Diwedd Ebrill 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion nyrsio yn fanwl ac yn gywir.	Safon 3.5 Cadw Cofnodion	<p>Cyflawnir yr archwiliad o ddogfennaeth yn wythnosol gan y fetron.</p> <p>Cyflawnir y gwiriadau dyddiol o gofnodion gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift.</p> <p>Darperir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiwn friffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd gyda'r uwch-nyrs.</p> <p>O fis Ionawr 2023, bydd adborth wythnosol yn cael ei roi yn y cyfarfodydd Band 7 a Metron</p>	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	<p>Roedd hwn ar waith adeg yr ymweliad ond roedd yn broses gymharol newydd. Caiff cydymffurfiaeth â'r broses ei hadolygu'n fisol.</p> <p>Ionawr 2023</p>

		mewn perthynas â chanfyddiadau'r archwiliad.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff arsylwadau o'r cleifion eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd ac y caiff y canllawiau cenedlaethol eu dilyn bob amser.		<p>Cyflawnir yr archwiliad o ddogfennaeth yn wythnosol gan y metron.</p> <p>Cyflawnir y gwiriadau dyddiol o gofnodion gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift.</p> <p>Darperir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiwn friffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd gyda'r uwch-nyrs.</p> <p>O fis Ionawr 2023, bydd adborth wythnosol yn cael ei roi yn y cyfarfodydd Band 7 a Metron mewn perthynas â chanfyddiadau'r archwiliad.</p>	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	<p>Roedd hwn ar waith adeg yr ymweliad ond roedd yn broses gymharol newydd. Caiff cydymffurfiaeth â'r broses ei hadolygu'n fisol.</p> <p>Ionawr 2023</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff sgoriau PEWS eu cofnodi mewn perthynas â phob plentyn sy'n cyrraedd gyda salwch aciwt.		Mae'r fetron yn cynnal archwiliadau o ddogfennaeth bob wythnos, sy'n cynnwys archwiliadau o gyflwyniadau plant ond nid ydynt yn gyson â 25% o'r derbyniadau a adolygwyd. Symud ymlaen i sicrhau bod 25% o'r nodiadau	Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys	Ionawr 2023

		<p>achosion a adolygwyd gan y fetron yn gyflwyniadau gan blant.</p> <p>O fis Ionawr 2023, bydd adborth wythnosol yn cael ei roi yn y cyfarfodydd Band 7 a Metron mewn perthynas â chanfyddiadau'r archwiliad.</p>		<p>Ionawr 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system rheoli cofnodion electronig yn gweithio'n effeithiol.</p>		<p>Rhodddwyd gwybod am y materion i Weinyddyd System Symphony sydd wedi'i leoli yn yr Adran Achosion Brys. Rhoddir gwybod am faterion arwyddocaol i Brif Arweinydd Gofal mewn Argyfwng a Metron yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Caiff unrhyw ddatblygiadau gofynnol i'r system eu trafod yng Ngrŵp Defnyddiwr Symphony y Bwrdd Iechyd a'u rhoi ar waith yn dilyn cytundeb.</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd arolwg rheolaidd yn cael ei gynnal gyda staff yr Adran Achosion Brys i gasglu materion a safbwyntiau ar y system y mae angen mynd i'r afael â nhw.</p>	<p>Prif Reolwr Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>Bydd yr arolwg cyntaf yn cael ei gynnal erbyn diwedd mis Ionawr 2023 ac yn parhau bob 3 mis</p>

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth am y cleifion ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac nad oes modd i aelodau'r cyhoedd weld sgriniau cyfrifiaduron.</p>		<p>Lle caiff diffyg cydymffurfiaeth â'r safonau Llywodraethu Gwybodaeth eu harsylwi, bydd y tîm yn ymdrin â'r rhain, gan roi adborth i'r staff.</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd hapwiriadau dyddiol o bob ardal yn cael eu cynnal yn yr Adran Achosion Brys ac yn cael eu dogfennu i ddarparu adborth i'r Prif Reolwr er mwyn gallu mynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth â'r safonau disgwylidig.</p>	<p>Prif Reolwr Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>I fod ar waith erbyn diwedd Ionawr 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i recriwtio staff parhaol.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Staff Meddygol Bu heriau o ran penodi i swyddi ymgynghorol gwag yn barhaol.</p> <p>Penodwyd Meddygon Locwm Ymgynghorol ychwanegol gyda chynllun ar waith i gefnogi'r unigolion hyn i gwblhau CESR er mwyn iddynt dderbyn swydd sefydlog. Dyrannwyd amser i feddyg ymgynghorol parhaol sy'n arbenigo yn y broses CESR yn ei gynllun swydd er mwyn cefnogi cydweithwyr drwy'r broses.</p> <p>Penodwyd meddygon gradd ganolig parhaol ychwanegol i</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, Pennaeth Nyrsio ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng.</p>	<p>Disgwylir i bob aelod o staff a recriwtiwyd i fod yn ei swydd erbyn mis Mai 2023</p>

		<p>atgyfnerthu'r rota y tu allan i oriau ymhellach, ynghyd â phatrymau rota rhagweladwy.</p> <p>Gweithlu Clinigol Anfeddygol (ACPS, PAs, ENPs) Cafodd buddsoddiad ychwanegol i'r gweithlu anfeddygol ei wneud trwy benodi Nyrs Ymgynghorol, 3 ACP dan hyfforddiant, Cydymaith Meddygol ac ehangu gwasanaeth yr Ymarferydd Nyrsio Brys.</p> <p>Staffio Nyrsys Parhau i wella'r sefyllfa nyrsio gyda gostyngiad fis ar ôl mis mewn swyddi gwag a'r defnydd dilynol o asiantaethau, ar gyfer staff cofrestredig ac anghofrestredig.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cymryd egwylliau rheolaidd o'r ardal glinigol.</p>		<p>Caiff clinigwyr eu hatgoffa yn y sesiynau sefydlu ynghylch pwysigrwydd cymryd egwylliau i gynnal eu llesiant. Bydd y Meddyg â Chyfrifoldeb mewn Argyfwng yn monitro bod y staff clinigol yn cymryd egwylliau.</p> <p>Bydd dull gweithredu safonol i'r Nyrs â Chyfrifoldeb weithio iddo yn cael ei ddatblygu drwy</p>	<p>Metron ar gyfer yr Adran Achosion Brys, Dirprwy Gyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>Ionawr 2023</p> <p>Ionawr 2023</p>

		ymgyngori â thîm band 7 i sicrhau bod dull gweithredu unedig er mwyn i'r holl staff gymryd eu hegwyliau ar adegau addas yn ystod eu shiftt.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.		Bydd cymorth yn cael ei geisio gan y Tîm Mewn Undod Mae Nerth i holi'r staff yn annibynnol ar y tîm rheoli er mwyn nodi meysydd pryder a chasglu barn gan y staff ar ba gymorth y maent yn teimlo sydd ei angen gan uwch-reolwyr wrth ymdrin â phwysau adrannol.	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, Pennaeth Nyrsio ar gyfer Gofal mewn Argyfwng, Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng.	Ebrill 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lindsey Bloor

Swydd: Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng

Dyddiad: 11.01.2023